

Bangor University

DOCTOR OF PHILOSOPHY

Ei phwer ni phaid: gwragedd ym myd baledi'r 19eg ganrif

Jones, Gwawr

Award date:
2010

Awarding institution:
Bangor University

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

CYFROL/ RHIF	AWDUR	ARGRAFFWR	DYDDIAD	ALAW	CYNNWYS
8/12	Ellis Roberts	I. Davies, Trefriw	1800	Bryniau'r <u>Iwerddon</u> Mentra Gwen	Yn mynegi hanes gwraig yn Llundain y gwanwyn diwethaf a fu farw o <u>newyn, wedi ei chymydog ei naccau hi o liniaeth mgwffl ei dillad</u> Fel y digwyddodd i wr ieuangc wrth ddyfod adre o garu ffeindio deuddyn ar y gwait o dythyllwch, ai ymddiddanion cellweurus fydd fel y canlyn
8/15		I. Davies, Trefriw	1800		Ymddiddan rhwng mab a merch ifangc, neu'r cerlyn ynghylch priodi
8/21		I. Davies, Trefriw	1807	Truban	Ymddiddan rhwng y meddwyn a Gwraig y dafarn, wedi darford yr arian
8/22	A. Evans	I. Davies, Trefriw	1808	<u>Leave Land</u> Llawer a'i chwenych	Breuddwyd Gwr Ifangc. Yr hwn oedd yn caru merch, a'i fam yn <u>anfodlon</u> Pennill a wnaed i ferch ieuangc
8/23		I. Davies, Trefriw	1808	Triban	Yn dangos fel y saethodd gwr darw ei gymydog, yn lle cariad y ferch
8/24		I. Davies, Trefriw	1808	Hun Gwenllian	Ymddidan rhwng gwr a gwraig achos y cwrw
8/27		I. Davies, Trefriw	1809	Triban	Ymddiddan rhwng mab a merch sef Morgan Jones a'i gariad
8/28		I. Davies, Trefriw	1809	Bryniau'r <u>Iwerddon</u>	Ar ymadawiad Gŵr ieuangc a'i gariad
8/29		I. Davies, Trefriw	1810		Yn gyntaf, yn rhoi hanes gwir a neilltuol am yr anffortunos W. Johnson. Gŵr bonheddig yn Llundain, o bum cant yn y flwyddyn. Yr hwn a geisiodd halogi ei forwyn, ac yn y diwed a dyngodd ladrad yn ei herbyn, yr hon a dihenyddiwyd y sesiwn diweddaf.
8/30		I. Davies, Trefriw	1810	Bryniau'r <u>Iwerddon</u>	Ymddiddan rhwng Gwraig y Cybudd, a gwraig yr Oferddyn, yn cydymaith adref o'r farchnad, ag yn achwyn ar y gwyr, pwy oedd yn gwrando ond y prydydd

8/31		I. Davies, Trefriw	1810	Tôn Fechan	Hanes Captain Llong a ffafriodd ferch i wr bonheddig a'i gymdogaeth a'i Rhieni hi oedd yn erbyn ei chael yn briod, drwy fod yn arall uwch ei râdd yn ei cheisio, ond er maint y rhwystr ar gwrthwynebiadau fe gadwodd cariad ei le rhythynt, a hwy a briodwyd.
8/32	S. Thomas a'i cant	I. Davies, Trefriw	1810	Mentra Gwen	O ymddiddan rhwng hen Gybudd a'i Gariad, sef Owen Sion a Morfudd Siors.
8/33	Rebecca Williams a'i cant	I. Davies, Trefriw	1812	Hyd y frwynen las	Hanes merch Ieuangc a laddwyd yn y Penrhyn Deudraeth, Sir Feirionydd
8/34		I. Davies, Trefriw	1810	Bryniau'r Iwerddon	Yn rhoddi hanes fel y darfu i langc ifangc twyllodrus hudo merch fonheddig i odineb trwy addewid priodas; a'r ferch a feichiogodd, ac yntau yn lle cyflawni ei addewid, a droes ei gefn arni; a'i thad a'i troes hi i ffwrdd, a hithau gan gywilydd a ymadawodd a'i gwlad, ac ar y ffordd wrth drafaelio ganwyd iddi ddau efaill; a phan oedd hi'n dyfod adref y llangc a'i cyfarfu ac a laddodd y ddau blentyn, ac ar ôl hynny a laddodd ei hunan; ac ni bu hynny lai nag angau iddi hithau; a hi a fu farw'n fuan.
8/36	Hugh Hughes a'i cant	I. Davies, Trefriw	1811	Bryniau'r Iwerddon	Hanes rhyfeddol am ferch i wr Bonheddig yn Lloegr, ai enw Mr. Bourn. Yr hon a ddygwyd i fyny mewn modd Cristianogol, ac fel yr oedd ar ddydd Saboth yn darllen y Bibl hi a syrthiodd mewn gweledigaeth, fel y tybiodd pawb ei bod wedi marw, ag y darparwyd claddedigaeth iddi; A phan oeddent yn barod i fynd ar corph i'r eglwys hi a ddechreuodd ddyfod atti ei hun; a hi adroddodd ynghylch hyfrydwch gogoniant y Nefoedd a phoenau uffern
8/38	T. Edwards	I. Davies, Trefriw	1811	Breuddwyd ar ei hÿd	Cyngor i Ferched Ifangc
8/39	Dewi Wyn o Eifion	I. Davies, Trefriw	1811	Leave Land	Yn rhoi hanes fel yr ymddangosodd y Cythrel i Eneth ieuangc wrth fyned i'r ysgol, a'r ymddiddan a fu rhyngddynt a'r modd y daeth Angel i'w chysuro
9/6	Glan Conwy	I. Davies, Trefriw	1812	Loath to Depart	Rhoddi gwir a neilltuol hanes am echryslawn lofruddiaeth ar gorph un

					George Murphy, Ffarmwr ym Mhentref Hankelow yn agos i Nantwich, yn Sir Gaerlloen. Ar fore Sul, Ebrill 12fed, 1812. Yr hon weithred a gyflawnwyd gan ei wraig ei hun a'i wâs, yr hwn trwy gyngor ei feistres a unodd a hi; fel y caent hwythau i' ll dau briodi.
9/8		I. Davies, Trefriw	1812	Bryniau'r Iwerddon	Mab i ŵr bonheddig (gerllaw Bath) oedd mewn cwmniaeth odinebus ag un o forwynion ei dâd, a hi a feichiogodd o honno; a'r mâb a gyfaddefodd mae efe oedd tad ei phlentyn; ond y ferch drwy ddichell y diafol, oedd a'i bryd ar ei lâdd, gan wadu nad oedd hi yn feichiog; felly hi adawyd yn ddi gerydd hyd nad oedd yn agos i'w hamser, gan ei gwaetio'n ofalus pa le bynnag y byddai'n myned; er hynny mewn dirgelwch hi amcanodd ladd y gwirion; ond ei hamcan ofnadwy ni ddaeth i ben; a'r ferch a syrthiodd mewn llewyg, lle cafodd olwg a ei holl drueni, ar fyrr amser gwedi hi fu farw'n edifeiriol.
9/9		I. Davies, Trefriw	1813	Loath to Depart	Cerdd o hanes ryfeddol am un Sian Niclason a amcanodd wenwyno ei Thad a'i Mam; ond Duw a anfonodd ei Angel atynt i ddatcuddio'r bradwriaeth.
9/10	Ellis Roberts	I. Davies, Trefriw	1813	<u>Y Dôn Fechan</u> Pigeu'r dur	Dwy gerdd ddiddan. Yn Gyntaf, Hanes hen ŵr a fu farw flwyddyn yn y <u>carchar, ar laeth bron ei ferch.</u> Yn ail, ymddiddan rhang mab a merch oedd wedi tripio, bob yn ail bennill.
9/11	Ellis Roberts	I. Davies, Trefriw	1813?	Bryniau'r Iwerddon	Yn rhoddi hanes am ferch i Dduwc yn priodi Gwas ei Thad.
9/12	Edward Owens	I. Davies, Trefriw	1813	Mentra Gwen	Yn dangos fel y siomodd merch y Prydydd
9/13		I. Davies, Trefriw	1813	Mentra Gwen	Ymddiddan rhwng Gwr Ieuangc a merch ieuangc, sef Seffra Siôn a Mallt ach Huw, ynghylch byw yn y byd gan henwi eu golud i'w gilydd.
9/17	H. Jones	I. Davies, Trefriw	1813	<u>Toriad y Dydd</u> Hun Gwenllian	Ar ddull ymddiddan rhwng merch fonheddig a merch y tenant, o achos <u>ei bod yn rhy falch.</u> Ymddiddan rhwng Gwr a Gwraig o achos y cwrw

9/18	Hugh Jones	I. Davies, Trefriw	1813	Glân medd-dod <u>mwyn</u> Galar dôn	Fel y digwyddodd i'r Prydydd fod mewn tŷ Tafarn pan ddaeth ysgowl- <u>wraig flin i nôl y gŵr adre; a'r ymddiddan a fu rhyngddynt</u> Cwynfan merch Ieuangc gwedi colli ei chariad
9/19		I. Davies, Trefriw	1814	Monday Morning	Can mewn dull o Gyngor i Feibion a Merched rhan Godinebu
9/25		I. Davies, Trefriw	1815	Bryniau'r Iwerddon	Hanes Miss Betty Williams a'i chariad, fel y buont mewn perygl ar y môr o eisiau Lluniaeth, o herwyd fod y cwbl wedi darfod.
9/30		I. Davies, Trefriw	1816		Ymddiddan rhwng dau gariad, sef Jacci Joy a Peggy Band
9/34	Dafydd Jones	I. Davies, Trefriw	1816	Bryniau'r Iwerddon	Yn rhoddi hanes am Wr a Gwraig oedd yn byw ym mhwyf Cerrig Hywel, yn Sir Frecheiniog, ac fel y bu farw'r wraig ac a adawodd ddau o blant bychain, a'r gwr a briiodd mewn godineb gyda'i forwyn, a Satan a roes ynghalon y forwyn i brynu gwenwyn i'w roddi i'r plant ymddifaid, ac fel yr ymddangsodd yspryd y wraig i ddatguddio'r weithred, ac a draethodd amryw bethau hynod.
9/35	Dafydd Jones	I. Davies, Trefriw	1816	Bryniau'r Iwerddon	Can newydd yn rhoddi hanes am lofruddiaeth a fu yn Buckinghamshire ryw noswaith yn niwedd mis Ionawr, 1816, gan 4 o ddyonion – fel y canlyn – Hwyl a aethant at dŷ ffarmwr a chi (Bull dog) gyda hwyl ac a annosant y ci i'r anifeiliaid oedd ar y buarth; a gŵr y tŷ, pan glybu'r trwst, a ddaeth allan, a thri o ddyonion gyd ag ef, ac yn ebrwydd fe'u saethwyd oll yn feirwon, gan y pedwar lofrudd; nid oedd drachefn yn y tŷ ond morwyn a phlentyn ieuangc, (canys 'roedd y wraig wedi marw) a'r llanges a ymguddiodd pan ddeallodd yr helynt; yna'r lofruddion a aethant i'r tŷ, ac a gymerasant y trysorau a ewyllysient, ac yn eu brŷs, wrth fynd allan a gauasant y ci i mewn: trannoeth y bore death cigydd o gymmydog, ac a alwodd yno, a'r llanges a fynegodd yr hanes idd yntau a archodd iddi ollwng ymaith y ci, ac a gymerodd geffyl, ac a'i dilynodd hyd nes y troes i Dŷ tafarn ar y ffordd, ac efe a aeth ymlaen i bentref oedd gerllaw, ac a gafodd gymmorth swyddogion, ac a aethant i'r Tŷ tafarn, ac a gawsant y gŵr a thri eraill, yn brysur ar y gorchwyl o rannu'r yspail, ac fe'u cymmerwyd i Garchardy Buckingham.

9/38		I. Davies, Trefriw	1817	Gwel yr Adeilad	Can am y ddamwain alarus a fu ar draeth y Lafan, Ebrill 21, 1817, sef – I dri o feibion a phump o ferched gael eu dyrysu gan niwl wrth hel cocos, a'r llanw a'u hamgylchodd ac a foddasant oll.
9/43	J. T.	I. Davies, Trefriw	1817	Y Dôn Fechan	O hanes rhyfeddol am fachgen a fu farw yn ddiweddar yn heol Dean (Dean Street) yn Llundain yn un ar bymtheg oed, yr hwn at ddiwedd ei oes a glafychodd mewn modd anarferol, sef a rhyw swm mawr o'r tu mewn iddo megis gwraig feichiog fai'n agos i dump esgor; yr hwn pan fu farw a agorwyd a chafwyd yn ei gylla ef Blentyn benyw a gwallt ac a daned ganddo, ac un goes ganddo, a di anaf ond hynny, fel mae'r hanes yn canlyn yn y gerdd.
9/44		I. Davies, Trefriw	1817	Mentra Gwen	Yn cynnwys ymddiddan rhwng Prydydd a Merch Ieuangc, yr hon oedd mewn tristwch o herwydd ei chariad oedd yn sawdwr.
9/46		I. Davies, Trefriw	1817		Yn rhoi hanes am droedigaeth merch ieuangc, falch ac annrhugarog, yr hon ni wrandawai ar gyngor ei thâd, ond mynd ymlaen yn ei chalongledwch a'i balchder, hyd nes yr ymddangosodd y cythraul iddi yn ei hystafell wrth edrych yn ei drych, ac ai bygythiodd yn dra arswydus, a hi a syrthiodd mewn llewyg, ac ar ol ei dadebru death un ar ddull hen ŵr penwyn atti, gan ei rhybuddio a'i chynghori i wellau ei buchedd, felly hi a addunedodd, ac a fu byw o hynny allan yn ofn yr Arglwydd.
10/1		T. Lewis, Wyddgrug	1801		Ymddiddan rhwng Gwr Ieuangc a'i Gariad
10/9		R. Williams, Caernarfon	1811		Cyffes gwr ieuangc at ei gariad.
10/11	Jones, Glan y Gors	James a Williams, Aberystwyth	1811		Cerddi Betti o Lansantffread.
10/13	Rebecca Williams	M. Roberts, Caernarvon	1812	Hud y frwynen las Mesur byrr	Merch ieuangc a laddwyd yn Penrhyn Deudraeth, Sir Feirionydd. Clod i Sir Robert Williams, Marchog Sir Gaernarvon

10/14	Rebecca Williams Richard Davies	R. Jones, Dolgellau	1813	Triban	Hanes am echryslon lofruddiaeth Mary Jones, gerllaw Penrhyn-deu draeth yn Sir Feirionydd Hanes am Thomas Edwards, yr hwn a grogwyd yn Nolgellau, Ebrill 17, 1813 am y llofruddiaeth uchod.
10/15	John James, Llandysul	S. Williams, Aberystwyth	1818		Can newydd am Herbert Hopkins o dref Mwythig, a Johanna Covet o Drefegloth, pa rai a ddaethant i ddiwedd tra thruenus ym mis Mawrth diweddaf, 1818.
10/20	Richard Jones	R. Williams, Caernarfon	1815	Y Galon Drom	O alaethus hanes am lofruddiaeth anhydy, a fu gerllaw Rhuthun, sef, i fab fyned at ferch oedd yn y ty ei hunan, a'i lladd mewn modd mwyaf echryslon, sef, ei thrawo yn ei phen a phrocer, a thorri ei gwddf o glust i glust, ag wedi hynny rhwygo ei bol o'i bogel i'w brest.
10/24	Ellis Roberts	L. E. Jones, Caernarfon	1816	Charity Mistress	Hanes carwriaeth a fu rhwng mab tlawd a merch gyfoethog. Y mab a dransportwyd ac a bressiwyd, ac a ddaeth yn iach adref, creulondeb ei thad a rwystrodd ei garwriaeth, a'r ddau a dorasant eu calonnau, ac felly y buont feirw.
10/26		R. a W. Williams, Caernarfon	1817	Trymder	Cerdd am y galarus ddigwyddiad a fu ar draeth y Lafan, Ebrill 21, 1817, sef i naw o bobl golli'r ffordd mewn Tarth du-dew, a'r llanw a'u hamgylchodd, a hwy a foddasant i gyd, ond un.
10/27		L. E. Jones, Caernarfon	1817		Yn rhoddi hanes am Rys Tomas Rys, yr hwn a ddihenyddwyd yn Nghaerfyrddin, am iddo wenwyno ei gariad, Elizabeth Jones, yr hon oedd yn feichiog o hono, trwy geisio dyfetha yr plentyn yn y groth.
10/28	Mary Robert Ellis a'i cant		1817	Bryniau'r Iwerddon	Cerdd newydd o annogaeth i foliannu Duw am y waredigaeth a gawsom y flwyddyn 1817.
10/32		J. Jones, Trefriw	1818	Triban	Ymddiddan rhwng y Meddwyn a Gwraig y Dafarn
10/35	Thomas Harris, Abertawe	J. Jones, Trefriw	1818	Loath to Depart	Yn rhoddi hanes dychrynlyd am Farn Duw, pan ydoedd yr yd wedi ei gasglu, fe ddarfu Duw ei daro a mellt yn wenfflam i gyd, ynghyd a'r

					Gwr a'r wraig a chwech o blant, a thri gwas cyflog, a dwy forwyn i gyd yn ulw nad oedd carreg ar gareg, o herwydd digio Duw, y 27 o fis Awst, 1818.
10/38	J. Lewis a'i cant	J. Jones, Trefriw	1818	Y Don Fechan	Can newydd o hanes dau frawd a laddodd eu chwaer wrth geisio lladd lodes ddyeithr, pan ydoedd yn dyfod i letty; yr hyn a ddigwyddodd Tachwedd 22, 1818 o fewn 6 milldir i Warrington, yn Sir Gaerlleon.
10/41	D. Evans	L. E. Jones, Caernarfon dros Dafydd Amos	1818		Can newydd yn rhoddi hanes byr o garwriaeth a phriodas Wmffrey Robert, y cloeswr a Shuan Rasmws y Fortiwn-teller y rhai a aned ill dau ym mhlwyf Pant-y-bygan, yn eu Trychwant Arian, ac a aethant i fyw i Gastell Ffwlbar, yn ochr y Mynydd Mawr.
10/42	John Thomas	J. Jones, Trefriw	1818	Bryniau'r Iwerddon	Hanes troedigaeth Elizabeth Dover, merch fonheddig yn Llundain. Yr hon ni chredai fod na Duw na Diafol, Nef nag Uffern, Adgyfodiad, Angel nag yspryd, nag un Bôd tu hwnt i angau; ond dilyn pob pleserau cnawdol, a allay fwynhau, hyd ganol mis Gorphenaf 1818.
10/44		John Jones, Trefriw	1818	Loath to Depart	Can y deng morwyn
10/48		J. Jones, Trefriw	1819	Breuddwyd y Frenhines neu Mesur Cerdd y Carwr Trwstan	Yn rhoi hanes fel y darfu i dri o Dailiwriaid ddal Gwr a Gwraig yn dwyn defaid, wrth ddyfod oddiwrth eu gwaith, hwy a gawsant un llwdn wedi ei adael ar lawr mewn sach, gollyngasant ef yn rhydd, ac aeth un o'r Tailwriaid i'r sach, a llechodd y ddau eraill nes dyfod y lladron i'w nôl, yna hwy a'i canlynasant i'r ty.
10/49	Richard Williams a'i cant	John Jones, Trefriw	1819	Bryniau'r Iwerddon	Can newydd o hanes Benson Covert, yr hwn y darfu ei ail wraig ef wenwyno tri o'i blant, gerllaw pentref bychan a elwir Ashburn, yn Sir Gaer Efrog (Yorkshire) a hi a ymgrogodd ei hun yn y diwedd.
10/50		P. Evans, Caernarfon	1819	Anhawdd ymadael – y ffordd fyrraf	Can newydd o hanes merch ieuange o flaen Sir Fynwy. Yr hon a laddodd wyth o ladron wrth iddynt geisio'i hyspeilio hi yn yr Hafotty.
10/51	Thomas Ddu,	J. Jones, Trefriw	1819	Bryniau'r	Yn rhoddi hanes am William Thompson, yr hwn wedi'i hudo gan y

	Abertawe a'i cant			Iwerddon	Diafol, a gafodd bump o blant o'i ferch ei hun (Jane Thompson); oedran yr hynaf oedd un mlwydd ar ddeg, - yr ail 8 mlwydd a thri chwarter, - y trydydd 6 mlwydd a phum mis, - y pedwarydd, 4 blwydd a saith mis, - yr ieuengaf 2 flwydd a haner; Ond fel yr oedd ei gydwybod yn ei gyhuddo, a'r Diafol yn ei hudo, fe ddarfu iddo eu gwenwyno mewn creulondeb, ar nos Lun, yr 8fed o Dachwedd diweddaf, 1818; ac a ddihenyddwyd yn Birmingham, yr ailfed dydd o Ionawr, 1819, er mawr rybudd i bawb.
10/55	Thomas Harris, Abertawe	L. E. Jones, Caernarfon	1819	'Anhawdd ymadael' neu 'Loath to depart'	Gwir hanes am lofruddiaeth digyffelyb, yr hwn a gyflawnwy gan Thomas Williams, Pen-y-Bryn, Gwrecsam sef, lladd ei wraig a dau o'i blant, un yn chwech a'r llall yn dair blwydd oed; ar ol hynny fe a g'lymodd gŵd llawn o gerrig am ei wddf, ac a foddodd ei hun mewn ffôs – yr hynn a gymerodd le ar ddydd Iau 17eg o fis Mehefin, 1819, yn 32ain oed.
10/56	John James, Llandysul a'i cant	J. Jones, Trefriw	1819	Y Don Fechan	Can newydd yn rhoddi hanes hynod rhwng Dafydd Harris a Nansi Griffiths o Dref Caerleon-ar-Wysg, Sir Fynwy, y rhai a ddaethant i ddiwedd truenus, y 10fed o Ionawr, 1819.
10/57	Hugh Jones, Llangwm	P. Evans, Caernarfon	1820	Toriad y Dydd	Cerdd o Ymddiddan rhwng yr Oferddyn a'r Dafarn-wraig
10/60		J. Jones	1820	Trymder	Cerdd o gwynfan merch ieuangc a gafodd ei thwylo ddwy waith gan ei chariad.
10/62		J. Jones, Trefriw	1820	Charity Meistres	Can o hanes carwriaeth rhwng mab tylawd a merch ieuangc gyfoethog.
10/67	W. Brooks?	John Jones tros W. Brooks	1821	Banks of Ireland	Can newydd yn rhoddi hanes am Briodas John Wilson a Maria Warren o dref Ellesmere, Sir Mwythig, y rhai a briodasant Rhagfyr 20, 1820
10/68		J. Jones, Trefriw	1821		Ymddiddan rhwng mab a merch.
10/71	Elizabeth Davies	J. Jones, Trefriw	1822		Can newydd sef gwirioneddol hanes am Margaret Williams, yr hon a

					gafodd ei lladd gerllaw i Gastell Nedd Gorphenaf 14, 1822.
10/73	John Vaughan	Williams, Aberhonddu	1822		Can er coffadwriaeth am Frenhines Caroline.
10/76	Stephen Jones, Llanfaeryw	P. Evans, Caernarfon	1823	Bryniau'r Iwerddon	Galarnad er coffadwriaeth am ddeg o ddynion a foddodd yn Afon Tawe, wrth groesi o Lansamlet i Abertawe. Ar eu dychweliad o'r cyfarfod mewn Bad, pa un a drodd, ac o ddeutu pump ar hugain ynddo; y rhai a safiwyd ond deg. Ar brydnawn dydd Sul, Gor.13, 1823.
10/78	John Jones, Glan y Gors	J. Jones, Trefriw	1823	Drops of Brandy	Priodas Siencyn Morgan, sef can newydd yn gosod allan ddull priodasau yn Nghymru.
10/81	John James, Llandysul	J. Jones, Trefriw	1824		Can newydd o hanes mab a merch ieuangc, yn agos i Gydweli. Pa rai a briodasant, ond rhieni y mab yn anfoddlon i'r ferch, a ddyfeisiasant ffordd i'w gwenwyno hi, am ba achos y maent mewn carchar.
10/84		J. Jones	1824	Triban	Cerdd yn rhoddi hanes fel y saethodd gwr darw ei gymydog yn lle cariad y ferch.
10/97	Ywain Meirion		1843?	Diniweidrwydd	Can newydd yn rhoddi hanes Margaret Davies o Gapel Garmon, plwyf Llanrwst, yr hon a lofruddiwyd ym mis Mai, 1843, am yr hyn yr erys y llofrudd tybiedig, yn ngharchar Rhuthyn, hyd ei brawf.
11/48	Richard Williams	S. Smith	1831	Y Don Fechan	Yn rhoddi hanes am Ann a Mary Griffiths, merched i John Griffiths, gerllaw i Dref y Clawdd, yn Sir Faesyfed. Pa rai wedi myned i Birmingham i ymofyn dan wasanaeth, a methu cael lle, a droasant yn ddrwg ar y dref, ac yn y diwedd a feichiogasant ei dwy; yr hyn a'i tynodd i'r diwedd truenus, a grybwyllir yn y gerdd a ganlyn, yr 22 o Dachwedd, 1831.
11/49	Glan Conwy	I. Davies, Trefriw	1812	Loath to Depart	Yn rhoddi gwir hanes am echryslawn lofruddiaeth ar gorph un George Murray, Ffarmwr yn Mhentref Hankelow yn agos i Nantwich, yn Sir Gaerlleon. Ar foreu Sul, Ebrill 12fed, 1812. Yr hon weithred a gyflawnwyd gan ei wraig ei hun a'i wâs, yr hwn trwy gyngor ei feistres,

					a unodd a hi, fel y caent hwythau ill dau briodi.
12/5		J. Jones, Trefriw	1818?	Cwynfan Brydain	Marwnad o Goffadwriaeth am ei Huchel Fawrhydi Y Frenhines Siarlot, Gwraig y Brenin Sior y Trydydd a fu farw Tachwedd 17, 1818 yn 75 oed.
12/6		Jones			Can sef hanes cydgynulliad Gwragedd a marchod i dai eu gilydd a d'wedyd clecs y nail wrth y llall.
12/7	David Davies (Dai'r Cantwr)			Roslyn Castle	Can hiraethlon David Davies (Dai'r Cantwr) pan yn garcharor yn Nghaerfyrddin am y terfysg yn amser Rebeca.
12/11		John Pryse, Llanidloes		Nos Galan Newydd	Can ofidus, sef hanes teimlad hen ferch weddw yn methu cael gwr.
12/13	Ywain Meirion	J. M. Jones, Llanidloes		Nos Calan Newydd	Caniad o sen i glep a chelwydd
12/17				Poor Jack	Can newydd yn rhoddi hanes am fargen aflwyddiannus a fu rhwng gwraig a gwerthwr <i>Tea</i> .
12/18	R. Williams, Bardd Gwagedd		1838	Belisle March	Can newydd ar ddull o ymddiddan rhwng gwr a gwraig oblegid y <i>Tea</i> a'r cwrw.
12/22	Ywain Meirion	John Jones		Bold Irishmen	Can newydd sef achwyniad Mari Rees Morgan, o herwydd priodi hen gybudd.
12/26	Richard Williams (Bardd Gwagedd)	S. Jones, Llanrwst		Y Don Fechan	Yn rhoddi cyflawn hanes y llofruddiaeth echryslon a gyflawnodd Samuel Thorley, ar gorph Mary Pemberton gerllaw Northwich, yn Sir Gaerlleon, – ar y 6ed o Ragfyr diweddaf; am yr hyn y mae yn aros yn y carchar hyd y sesiwn nesaf yn Nghaerlleon.
12/27	Ywain Meirion	John Jones, Llanrwst		Bryniau'r Iwerddon	Cerdd hynod sef gwardigaeth a gafodd Eliza Wilson o Blwyf St. Michael, Sir Amwythig, rhag cael ei lladd a'i chladdu gan ei chariad.

12/29	Thomas Harris	J. Jones, Llanrwst			Can newydd yn gosod allan y rhyfeloedd waredigaeth a gafodd John Williams, trwy frad ei feistres, o achos ei ffyddlondeb i Mary Lloyd.
12/30	R. Williams, Bardd Gwagedd	John Jones, Llanrwst		Billy o Rook is the Boy Sir	Ymddiddan rhwng hên wr a'i ferch yn nghylch priodi.
12/37	R. Williams, Bardd Gwagedd	J. Jones, Llanrwst			Can newydd o ymddiddan rhwng Cadi Sion Dafydd a'i nain yn nghylch priodi
12/38	Ywain Meirion	J. J., Llanrwst		Bony Bunch o Roses Rory o' More	Y Ferch o Feirion _____ Robin a Sian
12/39	R. William, Bardd Gwagedd	J. Jones, Llanrwst		Billy o Rook is the boy Sir	Can newydd sef achwyniad hen fab gweddw o eisiau gwraig yn nghyd a'i aflwyddiant wrth gynnal ty ei hunan.
12/41		J. Jones		Malldod Dolgellau	Cerdd o gwynfan merch ieuangc o eisiau gwr.
12/42	R. Williams	L. E. Jones			Can newydd yn rhoddi hanes carwriaeth John Jones, a Mary Morris, o blwyf St. Peter, Swydd Faesyfed; yn nghydar modd y darfu i'r fam (Martha Jones) foddi ei hun o falais o herwydd eu priodas hwynt ar y dydd cyntaf o Fawrth diweddfaf.
12/44		Lloyd, Caerdydd		Mwynder merch	Can newydd yn rhoddi hanes am Miss Mary Emmanuel, sef merch fonheddig, a gollodd ei morwyndod, ac a wnaeth y gan hon ei hun, er rhybudd i feibion a marchod.
12/45	Morris Roberts	P.Evans, Caernarfon			Can newydd o hanes Thomas Morton Williams o dref Welington y 'Nghwlad yr Haf; yr hwn a laddodd ei gariad Harriet Wilson, o'r un lle, ynghyd a'i llawforwynion, mewn modd truenus ac a gladdodd y ddwy yn un bedd, fis Mehefin diweddfaf, ac yn ganlynol efe a laddodd ei hun yn y carchar.
12/46		Peter Evans, Heol-y-castell,			Can ddiddanol sef cwynfan serchiadol y gwr ieuangc wrth ei gariad.

		Caernarfon			
12/47	Mary Roberts				Can newydd am langc ieuangc a laddod ei blentyn
12/53		John Jones			Merch y Tafarnwr yn enwi ei chariadon.
12/54	Stephan Jones, Llanfaeryw	John Jones, Llanrwst	1829?		Can newydd yn rhoi hanes cyflawn am gyffesiad Dafydd Evans am lofruddiaeth ei gariad, Hannah Davies, y llofruddiaeth hon a gyflawnodd ar nos Sadwrn, Mehefin 13, 1829, ar fynydd Pencareg, ac am ba un ei ddiennyddiwyd yn Nghaerfyrddin, ar y 21ain o Fedi canlynol – wedi esgyn o hono y tro cyntaf i'r grogbren, syrthiodd rhyw bethau perthynol iddi a chwympodd i lawr, pryd y gwridiodd ei wyneb, ac yr haerai yn ddifrifddwys <i>nad</i> oedd crogi ddwywaith yr un <i>trosedd</i> eithr gorfod arno ail-esgyn i'r pren dyoddef, ac yn fuan trosglwyddwyd ef i dragwyddoldeb.
12/55	Ywain Meirion	John Jones, Llanrwst		Poor Jack	Cerdd o hanes amgylchiad trwstan rhwng ffarmwr a gwraig ei weithiwr.
12/56	Richard Williams			Vulcan's Cave	Can newydd er annogaeth i bawb i feindio ei fusnes ei hun.
12/61	Twrog	John Jones, Llanrwst			<u>Can Nansi Nix</u> Can Doli
12/62	R. Williams, Bardd y Gwagedd	John Jones, Llanrwst			Can ddifrif o ymddiddan rhwng wy chwaer sef Sian a Nel, yn nghylch eu gwŷr, – un wedi priodi oferddyn a'r llall gybudd.
12/64		J. Jones, Llanrwst			Cerdd o hanes merch i Esquire, yn ymadael a'i gwlad, am na chai briodi gwas i lifrai ei thad.
12/71	Richard Williams	Peter Evans, Caernarfon			Clod i ferch ifanc sef Jessie o Dumblaine.
12/72	Richard Williams,	Peter Evans,		Belisle March	Can newydd sef ymddiddan rhwng dwy gymmydges, un am briodi a'r

	Bardd Gwagedd	Caernarfon			llall am beidio, bob yn ail pennill, sef Gwen a Mari.
12/73					Can Miss Morgan Fawr.
12/78	R. Williams	J. Jones, Llanrwst	1831?	Bryniau'r Iwerddon	Can newydd yn rhoddi hanes am y modd dychrynlyd y darfu Elizabeth Whitehouse, a John Whitehouse, ei mhab, amcanu torri tŷ Edward Wilding, Yswain, masnachwr enwog gerllaw Manchester, a bwriadu lladd Mary Spencer, yr hon oedd yn ei wasanaethu, ar nos Iau, yr 28 o Ebrill 1831. am hyn eu dihenyddiwyd boreu ddydd Mawrth, yr 2 o Awst, 1831.
12/79	R. Williams	T. Price, Merthyr		Bryniau'r Iwerddon	Can newydd yn rhoddi hanes Jane Francis yr hon a ddihenyddiwyd yn Nhref reading, Berkshire, ar ddydd Sadwrn Mawrth y pedwarydd, am lofruddio dau o blant ei merch, sef Ann Francis, ar nos Wener y 10fed o fis Chwefror diweddfaf.
12/80				Triban	Ymddiddan rhwng Robert a Begi
12/81	Glân ei galon a'i cant			Cerdd y gelynen	Can newydd am wraig a wnaeth ginio o geiliog, gan ei ferwi heb dynu ei berfedd, na thori ei draed.
12/83	R. Williams, Bardd Gwagedd			Pray what will Old England come to	Can newydd yn gosod allan rhai o gastiau dirgelaidd y Titotals.
12/84					Cwynfan merch ieuangc am fod ei bol yn codi.
12/87	David Jones, Llanybydder				Can newydd yn gosod allan y gwahaniaeth rhwng dull y bobl yn eu gwisgiadau y dyddiau hyn, rhagor y dyddiau gynt.
12/89	Bardus Lochwd			Poor Jack	Ymddiddan rhwng mab a merch, y'ngylch myned i garu yn y gwely.
12/90	Richard Williams			Mentra Gwen	Can newydd yn rhoddi hanes y cynhwrf a fu yn ddiweddar yn Bethesda, Swydd Gaernarfon, o achos Pregethwr a Gwraig gwr arall, y rhai oeddynt yn arfer chwarae yr Hen Gast.

12/94	Ianto Cadfan			Bryniau'r Iwerddon	Cerdd newydd yn rhoddi hanes am ddynes a achubwyd, mewn modd rhyfeddol, o ddwyllaw rhyw ddihiryn oedd wedi amcanu ei dibenu trwy ei thafu i <i>Blackmere</i> , pwll o ddwfr dwfn, barna rhai nad oes iddo waelod; mae ynghylch tair milldir o <i>Leek</i> yn <i>Staffordshire</i> . Yr hanes a gyfansoddwyd o'r Bedwarydd Gyfrol ar ddeg o'r Eurgrawn, tudalen 159.
12/95				Person Paris	Can newydd yn gosod allan ychydig o lawer o gastiau marchod yspytty o Festiniog.
12/97	D. D. J.			Pray what will old England come to	Can newydd sef ychydig o hanes bywyd Rebecca a'i marchod, fel y maent yn tori'r Tollbyrth mewn amrywiol fanau.
12/100	R. Williams, Bardd y Gwagedd	John Jones, Llanrwst		The Bold Irishman	Can newydd, sef achwyniad Shon Morris Griffith, o herwydd iddo briodi gwraig annrhefnus.
12/102	Richard Williams	T. Price, Merthyr		Bryniau'r Iwerddon	Can newydd yn rhoddi hanes y modd y darfu Margaret Edwards o Norwich, amcanu dwyn John Morris, ei gwas, yn euog o ladradd; am buasai yn ei gael yn briod iddi, am hyn y condemnwyd ef i farw yn y sessiwn diwethaf; a'r modd y gwaredwyd ef a'i drallod ofnadwy ar y 5ed o Fedi.
12/103		P. Evans, Caernarfon			Can newydd am wr a gwraig, o Gymru, a gawsant eu barnu i'w dihenyddio am lofruddiaeth a wnaethai un arall; ynghyd a hanes dihenyddiad y llofrudd
12/104		L. E. Jones, Caernarfon		Bryniau'r Iwerddon	Yn rhoddi hanes am John Philpot, yr hwn a laddodd ei Gariad, Mary Jones, a'r modd y parhaodd ef i wadu hyd nes death angua [sic] ato.
12/106		J. Jones, Llanrwst	1828?		Er coffadwriaeth un ferch i ffermwr enwog, yn King's Court o Blwyf Headland, yn swydd Gaerangon, ynghyd a'r forwyn gyflog, yr hon a gafodd ei denu trwy rym nerthol aur ac arian, yr 28 o fis Mawrth... Yn y flwyddyn, a'r ferch ieuangc a ga's ei dwyn i fynu o dan ofal ei Rhieni

					tirion, heb na chosp na cherydd, o blegid mai hi oedd yr ieuengaf o un ar ddeg o blant. Hithau yn ieuangc wyllt o 11 hyd yn 17eg oed, yn hollol allan o bob cyngor ei rhieni, anwyl, nes yn y diwedd iddi feichiogi, a chweddi hyny marw mewn mawr gystudd. A'r forwyn gyflog wedi gwasanaethu 5 mlynedd yn y Teulu, a gafodd ei Dienyddio, am losgi yn y tân, blentyn newydd eni y ferch ieuangc.
12/107					Cwyn merch ieuangc am ei chariad.
12/108	Llopanwr a'i cant	P. Evans, Caernarfon		Llef Caerwynt	Ymddyddan rhwng dwy dafarnwraig.
12/109		J. Harris, Porth-y-Castell, Caernarfon			Can o ymddiddan rhwng mab a merch ynghylch priodi.
12/111		P. Evans		Y Dôn Fechan	Yn rhoddi hanes am ryfeddol ddamwain a ddigwyddodd i wraig weddw oedd yn cadw Turnpike yn Micheldean, yn Sîr Gaerloyw; sef y modd y gwaredodd yr Arglwydd ei bywyd trwy ei rhybuddio o'i pherygl mewn breuddwyd.
12/112		John Jones, Llanrwst			<u>Yn rhoddi hanes am wragedd a feddwodd ar frandi mewn Tea</u> Ymddiddan rhwng mab a merch, bod yn ail bennill.
12/113		J. Jones, Llanrwst		Monday Morning	Cerdd dodrefn ty
12/114				Loath to Depart	Cerdd Elen
12/116	R. Williams	J. Jones, Llanrwst	1829?	Parhaed Cariad Ffyddlon	Yn rhoddi hanes carwriaeth Joseph Edmunds, ac Anne Morton, o dref Warwick, ynghyd a'r modd dychrynlyd y darfu iddo amcanu ei lladd, a'r hynod waredigaeth a gafodd ef ar ei llaw hi, a'r modd y priodasant ar ddydd Sadwrn y pedwerydd dydd ar bymtheg o Fedi, yn y flwyddyn 1829
12/117	Catherine Edmund	J. Jones			Yr Oferddyn a'i wraig

12/119	John Davies, Neuadd Fawr				Ymddiddan rhwng dau o wyr am eu Gwragedd
12/120		Peter Evans, Caernarfon		Malldod Dolgellau	Cerdd o ymddiddan rhwng hen wr a merch ieuangc, bob yn ail odl; y mab yn bedwar ugain a'r ferch yn ugain oed.
12/121	Owen Meirion	John Jones, Llanrwst			Yn gosod allan deimladau mab mewn cariad a merch.
12/122	Dafydd Williams?	L. E. Jones, Caernarfon			Yn rhoddi hanes Dafydd Williams a Mari Dafydd o blwyf Dreletert yn Sir Benfro, pa rai a ddaethant i ddiwedd truenus, yr 20fed o Fawrth diweddaf; A gyfansoddwyd ganddo ef ei hun, yn y carchar.
12/126			1849?		Can alarus, yn rhoddi hanes y llofruddiaethau o'r hunanladdiad, a gyflawnwyd ar y dydd 1af o Fai, 1849; yn mhlwyf Llanwenog, Sir Aberteifi; gan ddyn o'r enw Thomas Davies, yr hwn wedi lladd ei wraig a'i blentyn 12 mis oed, yn y modd mwyaf barbaraid, a osododd derfyn ar ei fywyd ei hun,
12/135	John Williams	Peter Evans		Y Don Fechan	Can yn cynnwys hanes merchant o Newfoundland, yr hwn roesai ei serch ar ferch i farchog, y'ng hyd a'r amrywiol helyntion a fu arnynt.
12/142				The Bold Dragoon	Cerdd Miss Morgan Fawr
12/143					Can newydd yn gosod allan flinder meddw merched Cymru o achos y militia.
21/1	Owen Griffith (Ieuan Gadfan)	L. E. Jones, Caernarfon		A nutting we will go	Canmoliaeth i Ferched Gymru yn nghyd a'u rhagoriaeth ar holl ferched y Byd.
21/2 + 3		O. E. Jones a'u Gyf., Argraffwyr, Llanrwst		A nutting we will go	Merched Cymru neu rhagoriaeth ar holl ferched y byd

21/4 + 5		H. Humphreys, Caernarfon		A Nutting we will go	Merched Cymru, eu rhagoriaeth ar holl ferched y byd
21/6	D. Ddu, Eryri			Morwynion Glan Meirionydd	Fy Annwyl Fam fy hunan.
21/20	Ceiriog	H. Davies, Dinbych		Rhaged	Gwyneb fy Anwylyd
21/21	<u>Ceiriog</u>	John Jones, Llanrwst		<u>Rhaged</u>	<u>Gwyneb fy Anwylyd</u> Deio Bach, neu hiraeth mam ar ol ei mab aeth i'r America.
21/22	<u>Talhaiarn</u>	John Jones, Llanrwst		<u>Serch Hudol</u>	<u>Cadach Gwyn Miss Jones y Glyn. Llofruddiaeth Echrslawn</u> Fy Nghariad ydwyt ti
21/23		John Jones, Llanrwst			Can Dolly
21/26 + 27				Wait for the waggon	Yr hogen goch.
21/28		John Jones, Llanrwst			Bugeiles yr Wyddfa
21/32		John Jones, Llanrwst			Can Serchiadol bob yn ail penill yn Saes'neg a Chymraeg
21/34					'O! Peidiwch da chwi!' Can newydd yn yr hon y dangosir dull y marched ieuainc o ddangos eu cymeradwyaeth i'r bechgyn fydd yn eu caru, ac y rhoddir amryw gynghorion rhagorol i Lanciau Ieuainc, a Hen Lanciau hefyd i'w trin y ffordd oreu.
21/44	R. Parry	Robert Jones,			Cerdd hanes Miss Morgans Fawr, o Blas y Coed, Yr hon a briododd

		Conwy			Sion ei gwas; Hefyd, Hanes ei garwriaeth yntau gyda ei ail Wraig
21/45	J Jones, Glan y Gors	J. Jones, Llanrwst		The Bold Dragoon	Cerdd Mis Morgans Fawr
21/47		J. Jones, Llanrwst			Cerdd Betti o Lansantffraid
21/48		O. E. Jones, Llanrwst			Betti o Lansantffraid
21/53	Dewi Dinorwic			Bryniau'r Iwerddon	Anerchiad i wr a gwraig newydd briodi
21/54 + 55	R. Williams, Bardd y Gwagedd	Llanrwst		The Bold Irishman	Can Newydd sef achwyniad Shion Morris Griffith, oherwydd iddo briodi gwraig annhrefnus
21/56	W. Brooks	John Jones, Trefriw	1821	Banks of Ireland	Can newydd yn rhoddi hanes am briodas John Wilson a Maria Warren o Dref Ellesmere, Sir Amwythig, y rhai a briodasant Rhagfyr 20, 1820.
21/57 + 58		J. Jones, Llanrwst		Cader Idris	Can Edward Morgan a Jenny Jones, Llangollen.
21/59		H. Jones, Llangollen		Cadair Idris	Cerdd Jenny Jones a Edward Morgan, Llangollen. Yn Gymraeg ac yn Saesneg
21/60	John Parry, Bardd <u>Alaw</u> Gwilym Morganwg	H. Humphreys, Caernarfon		Cadair Idris <u>Llwyn on</u>	Jenny Jones ac Edward Morgan, Llangollen, Yn Gymraeg ac yn <u>Saesneg.</u> Y Ferch Garaf Fi
21/61	Dafydd Llewellyn a'i cant	J. Jones, Llanrwst		Hyd y Frwynen Las	Can serchiadol o ymddyddan rhwng Thomas Evans, Telynor, ac Elizabeth Williams o'r Scer, Sir Forganwg
21/62	Dafydd Llywelyn, a'i cant	D. Jones, Merthyr		Hyd y Frwynen Las	Can Serchiadol o Ymddiddan rhwng Thomas Evans, Telynor, ac Elizabeth William, o'r Scer, Sir Forganwg

21/63	John James, Llandysul	Peter Evans, Caernarfon tros Richard Williams			Can newydd yn gosod allan garwriaeth Billy Williams a Hannah Johnston y Lanhafren.
21/64	John James, Llandysul	John Jones, Llanrwst			Can Newydd yn gosod allan garwriaeth Billy Williams, a Hannah Johnson, o Lanhafren.
21/65 + 66	John James, Llandysul	David Jones, Heol Fawr, Merthyr			Can newydd yn gosod allan garwriaeth Billy Williams a Hannah Johnson, o Lanhafren
21/67 + 68		H. Humphreys, Caernarfon		Bryniau'r Iwerddon	Carwriaeth Billy Williams a Hannah Johnson.
21/69		L. E. Jones, Caernarfon	1829		Cerdd newydd sef hanes carwriaeth rhwng Dafydd George a Miss Eliz. Watkins, o blwyf Llanllur, yn Sir Benfro, y'ng hyd a'r ddamwain ryfeddol a ddigwyddodd iddynt, Medi 27ain, 1828.
21/70		Peter Evans, Caernarfon dros John Williams		Y Dôn Fechan	Can yn cynnwys hanes Merchant o Newfoundland, yr hwn roesai ei serch ar ferch i farchog, Yng hyd a'r amrywiol helyntion a fy arnynt.
21/71		John Jones, Llanrwst			Can yn cynnwys hanes merchant o Newfoundland, yr hwn roesai ei serch ar ferch i farchog, Y'ng hyd a'r amrywiol helyntion a fy arnynt.
21/72 + 73 + 74		P. Evans, Caernarfon		Y Dôn Fechan	Can ddiddan sef hanes carwriaeth rhwng cadben llong o Dover, a merch i Esquire; a'r modd y cafodd efe hi yn briod er gwaethaf ei wrthwynebwyd.
21/75	Bardd y Gwagedd	J. T. Jones, Caerfyrddin		Bryniau'r Iwerddon	Can newydd yn rhoddi hanes am garwriaeth a phriodas Henry J. Wilcott, a Harriet Williams, gerllaw Taunton, yn ngwlad yr Haf, Somersetshire. Pa rai a briodasant yn Nghaerdydd, fis Gorphenhaf diweddaf.
21/76					Can o hanes carwriaeth rhwng mab bonheddig a morwyn ei Dad, sef Charming Lucrecia

21/77		J. Jones, Llanrwst			Cerdd o Hanes Merch i Esquire, yn ymadael â'i gwlad, am na chai briodi Gwas lifrai ei Thad.
21/78		P. Evans, Caernarfon		Voice Love	Can yn rhoddi hanes am ferch i Emprwr, yr hon a rhoddes ei ffansi ar fab i ffarmwr o Blymouth, Swydd Defon. Yr hwn oedd Sawdwr, ac fel enillodd efe hi a'i gleddyf, trwy ymladd dau fywyd wrth orchymyn ei thad.
21/79		D. Huws, Llansantffraid			Can newydd, sef ffrau ddiffrywyn rhwng y Fam, ar Ferch, ynghylch priodi.
21/80		John Jones, Llanrwst			Y ffrae ddiffrywyn rhwng y Fam a'r Ferch ynghylch priodi
21/81		J. Jones, Llanrwst		Triban	Can o ymddiddan rhwng Morgan Jones a'i gariad.
21/82		J. Jones, Llanrwst		Breuddwyd y Carwr	Can newydd o ymddiddan rhwng mab a merch
21/83		J. Jones, Llanrwst		Belisle March	Can newydd o ymddiddan rhwng dwy gymydoges, sef Gwen a Mari, bob yn ail pennill, un am briodi a'r llall am beidio
21/84	R. Williams	P. Evans, Caernarfon		Belisle March	Ymddiddan rhwng dwy gymydoges, sef Gwen a Mari, bob yn ail bennill, un am briod a'r llall am beidio.
21/86	Ieuan Glan Geirionydd Talhaiarn	Ellis Jones, Caernarfon		Y Gwenith Gwyn	Hen Forgan a'i wraig neu, ymgomiad deuluaidd rhwng Morgan a Sion yn nghylch amgylchiadau cartrefol. Hywel a Gweno
21/87	Ieuan Glan Geirionydd Talhaiarn	H. Humphreys, Caernarfon		Serch Hudol	Hen Forgan a'i Wraig, neu Ymgomiad Deuluaidd rhwng Morgan a Sian yn nghylch amgylchiadau cartrefol Fy Nghariad ydwyd ti
21/88		J. J. Llanrwst		Mentra Gwen	Hanes carwriaeth rhwng Sion Dafydd a Gwen Morgan a'r ymddiddan a

					fu rhyngddynt.
21/89	R. Williams, Bardd Gwagedd	John Jones, Llanrwst		Billy Roos is the Boy Sir	Can newydd neu ymddiddan rhwng hen ŵr a'r ferch yn gnhylich priodi.
21/90				Triban	Robert a Begi
21/91	R. Williams, Bardd Gwagedd	Peter Evans, Caernarfon			Can ddigrif o ymddiddan rhwng dwy chwaer sef Sian a Neli, yn nghylch eu gwyr.
21/92		John Jones, Llanrwst		Breuddwyd y Carwr	Can newydd o ymddiddan rhwng mab a merch
21/93		Peter Evans, Caernarfon		Malltod Dolgelleu	Cerdd o ymddiddan, rhwng hen wr a merch ieuanc, bob yn ail odl; y Mâb yn Bedwar Ugain, a'r ferch yn ugain oed.
21/94		J. Jones, Llanrwst		Conceit y Brenin William	Ymddiddan rhwng Susan a William.
21/95		L. E. Jones, Caernarvon			Ymddiddan rhwng y wraig ddiddan a'r gwr boddlongar, y'ngnylch traul y ty
21/96 + 97		John Jones, Llanrwst			Ymddiddan rhwng y wraig ddiddan a'r gwr boddlongar y'ngnylch traul y ty.
21/99	R. Williams, Bardd y Gwagedd	J. Jones, Llanrwst		Billy o Rook is the Boy Sir	Can newydd sef achwyniad hen fab gweddw o eisiau gwraig; yn nghyd a'i aflwyddiant wrth gynnal ty ei hunan.
21/101		D. Thomas, Talysarn			Can yr hen ferch.
21/103	Meirion			Nos Galan Newydd	Can ofidus sef hanes teimlad hen ferch yn methu cael gwr.
21/107 + 8		H. Humphreys,		Yr Hen Amser	Ffarwel Mab Ieuangc i'w Gariad

		Caernarfon		Gynt	
21/112	I. G. Geirionydd	H. Humphreys, Caernarfon		Gramachree Molly	Galar am Gwen
21/115	Robyn Ddu Eryri				Alice Gray
21/116	J. Blackwell, Wyddgrug	H. Humphreys, Caernarfon		The Wounded Hussar	Jessy o Dumblaine
21/117			1829		Hanes Llofruddiaeth Druenus Hannah Davies, ar fynydd Pencareg, yn Swydd Caerfyrddin
21/118	J. Lloyd	I. Thomas, Aberteifi			Can newydd yn rhoddi hanes am ddau oedd yn caru yn mhlwyf Llandilo Fen, Sir Frycheiniog, a'r diwedd galarus y daethant iddo eill dau; John Davies, a ga'dd ei ddiennyddio yn Aberhonddu, y 13eg o Fawrth diweddaf am ladd ei gariad sef Margaret Jones
21/119	Ywain Meirion		1843	Diniweidrwydd	Can newydd yn rhoddi hanes Margaret Davies o Gapel Garmon, Llanrwst, yr hon a lofruddiwyd ym mis Mai, 1843, am yr hyn yr erys y llofrudd tybiedig, yn ngharchar Rhuthyn, hyd ei brawf.
21/120	Thomas Harris, Trefdraeth	Peter Evans, Caernarfon		Bryniau'r Iwerddon	Can newyddyn rhoddi hanes cyflawn gyfaddefiad Dafydd Evans, yr hwn a ddihenyddiwyd yn Nhref Caerfyrddin ar ddydd Llun yr 21ain o Fedi, 1829, am lofruddiaeth druenus a gyflawnodd ar gorph Hannah Davies, ar nos Sadwrn y 13eg o Fehefin, 1829 ar fynydd Pencareg, yn Swydd Gaerfyrddin
21/121	Stephen Jones, Llanfaeryw				Can newydd yn rhoi hanes cyflawn am gyffesiad Dafydd Evans a lofruddiaeth ei gariad Hannah Davies
21/122	Robert Evans, Trawsfynydd	Caernarfon	1833		Can newydd yn rhoddi hanes carwriaeth rhwng John Williams a Margaret Davies, o blwyd Llanfihangel; ynghyd a'r diwedd truenus a ddaeth i Joseph Gower, yr hwn a foddodd ei hun wrth amcanu lladd John Williams o falais, na chawsai Margaret Davies yn briod iddo, Medi

					10fed, 1833.
21/124	Abel Jones (Bardd Crwst)		1877		Can newydd am ddienyddiad a chyfaddefiad Cadwaladr Jones, y Parc, ger Dolgellau, Swydd Meirionydd, Tachwedd 21ain 1877 a'i dreial yn Nghaerlleon Gawr, am y llofruddiaeth mwyaf erchyll yn Nghymru ar y 4ydd o fis Mehefin, 1877.
21/125	Evan Davies, Penydaren				Can alarus, sef hanes tra rhyfedd a ddigwyddodd rhwng J. Jones o Abertawe, a Mary Williams, Castellnedd, yr hwn oedd yn feichiog o'r dywedig John Jones, yr hwn a fwriadodd ei lladd, ond yr achubwyd ei bywyd yn rhyfedd a cholodd ei fywyd ei hun.
